# COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE DYDD MERCHER, 30 MEDI 2020, AM 15:00

## Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| S Aspey | TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett |
| MC Clarke | N Clarke | RJ Collins | HJ David |
| P Davies | PA Davies | SK Dendy | DK Edwards |
| J Gebbie | T Giffard | RM Granville | CA Green |
| DG Howells | A Hussain | RM James | B Jones |
| M Jones | MJ Kearn | DRW Lewis | JE Lewis |
| JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas | AA Pucella |
| JC Radcliffe | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Julie Ellams | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Gill Lewis | Pennaeth Cyllid a Swyddog 151 Dros Dro |
| Claire Marchant | Corporate Director Social Services and Wellbeing |
| Janine Nightingale | Corporate Director - Communities |
| Michael Pitman | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

439. DATGANIADAU O FUDDIANT

Dim

440. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y CYNGHORYDD MAER SE BALDWIN

Cyn gwneud ei gyhoeddiadau, dywedodd y Maer wrth y Cyngor ei fod wedi nodi yn y Cyngor cyffredin diwethaf bod Cynghorydd Ceidwadol wedi gwneud datganiad anghywir. Dywedodd y Maer ei fod yn anghywir i ddweud mai Aelod Ceidwadol wnaeth y datganiad, gan y gallai fod wedi cael ei wneud, mewn gwirionedd, gan unrhyw Gynghorydd a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Roedd cyhoeddiad y Maer fel a ganlyn:-

"Hoffwn ddweud ei bod wedi bod yn bleser mawr gwasanaethu fel Maer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2019/2020. Efallai nad wyf wedi cael popeth yn iawn drwy gydol fy nhymor ond mae pawb yn gwneud camgymeriadau. Wel, o leiaf rwy'n gwybod ac yn cyfaddef pan fyddaf yn eu gwneud, ac yn dysgu ganddynt. Nid yw'r flwyddyn wedi mynd yn ôl y bwriad, rwy'n siŵr eich bod chi gyd yn ymwybodol o hynny, gyda'r cyfyngiadau a osodwyd arnom fel rhan o bandemig Covid19, gan olygu

mai fi bellach yw'r Maer sydd wedi gwasanaethu hiraf yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Byddwn wedi hoffi gwneud mwy o ddigwyddiadau casglu arian, ond yn anffodus nid yw amser a pandemig wedi caniatáu hynny. Yn ôl ym mis Tachwedd 2019 trefnais ddigwyddiad prynhawn llwyddiannus iawn o'r enw 'Music with the Mayor' yn Court Colman Manor. Yn y digwyddiad, cafodd y gwesteion fwynhau canapés a Prosecco diwaelod am yr awr a hanner cyntaf. Cafodd y gwesteion wledd o adloniant gan artistiaid cerddorol lleol ac artist drag o fri rhyngwladol, 'Pixie Perez'. Diolch yn arbennig i bob artist a roddodd o'u hamser yn rhad ac am ddim ac i berchnogion y Court Colman Manor am ganiatáu i ni ddefnyddio eu lleoliad yn rhad ac am ddim hefyd. Heb gefnogaeth fy nghyfaill da iawn Ryan Phillips ni fyddwn byth wedi gallu trefnu digwyddiad o'r fath. Gweithiodd yn ddiflino am fisoedd i wneud yn siŵr bod y digwyddiad yn llwyddiant. Diolch hefyd i bawb a roddodd wobrau raffl ac i'r cynghorwyr hynny a fynychodd y digwyddiad.

Gan mai fi yw Maer hoyw cyntaf Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, roedd yn bwysig i mi ddewis elusen a oedd yn agos at fy nghalon. Rwyf wedi hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy gydol fy mywyd, nid fel Cynghorydd yn unig. Yr elusen a ddewisais oedd Pride Cymru, a ches bleser mawr o'u hysbysu y byddwn yn trosglwyddo £4954.54 iddyn nhw i gefnogi'r gwaith gwych y maen nhw'n ei wneud.

Trwy gydol y flwyddyn rwyf wedi annog Cynghorwyr i wneud rhoddion i Fanc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr yn ein cyfarfodydd cyngor llawn misol. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i helpu Banc Bwyd Pen-y-bont ar Ogwr i fwydo'r rhai o fewn ein cymdeithas sydd mewn tlodi bwyd eithafol. Gwnaeth dychymyg y Cynghorwyr hynny a luniodd yr hamperi adfent gwrthdro argraff arbennig arnaf. Roedd y Banc Bwyd yn hynod ddiolchgar am bopeth a wnaethom drostyn nhw.

Yn ogystal â mynychu llawer o ddigwyddiadau, gosodais dasg i'n hun o wella'r ffordd yr oedd y Cyngor hwn yn cefnogi rôl y Maer. Yn ystod fy mlwyddyn, mae'n bleser gennyf ddweud ein bod wedi cyflwyno llwyfan ar-lein newydd i wneud rhoddion fel rhan o wefan y Cyngor. Cam i'r cyfeiriad cywir yn bendant.

Hoffwn ddiolch i holl staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig yr holl Wasanaethau Democrataidd am eu hamynedd wrth ddelio â'm cwestiynau. Yn bennaf oll, hoffwn ddiolch i Roger am gydlynu fy holl ymweliadau a digwyddiadau Maerol, ac am fy ngyrru iddynt i sicrhau fy mod yn cyrraedd yn brydlon.

Gall bywyd Maer fod yn anodd iawn ac yn unig ac ni fyddwn wedi llwyddo oni bai am fy nghonsort gwych, y Cynghorydd Nicole Burnett. Mae'n wir ddrwg gennyf na phrynais yr holl esgidiau, ffrogiau, a bagiau llaw yr oeddet ti'n credu dy fod yn eu haeddu.

Yn olaf oll, rwyf am ddymuno'r gorau i'r Maer a'r Consort newydd trwy gydol eu tymor, ac rwy'n gobeithio eich bod yn ei fwynhau cymaint ag y gwnes i".

441. ETHOL MAER AR GYFER Y CYFNOD HYD AT FIS MAI 2021 YN UNOL AG ADRAN 23(1) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

PENDERFYNIAD: Ethol y Cynghorydd K Watts yn Faer am weddill y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2021.

442. CYHOEDDI CONSORT Y MAER

Cyhoeddodd y Cynghorydd Watts mai'r Cynghorydd J Williams fydd ei Gonsort.

443. PENODI DIRPRWY FAER AR GYFER Y CYFNOD HYD AT FIS MAI 2021 YN UNOL AG ADRAN 24(1) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972.

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer safle'r Dirprwy Faer am weddill y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2021, fel a ganlyn:-

Cynghorydd JC Spanswick
Cynghorydd A Hussain

Cynhaliwyd pleidlais felly er mwyn penodi Dirprwy Faer, a'r canlyniad fel a ganlyn:-

| Cynghorydd JC Spanswick | Cynghorydd A Hussain |
|---|---|
| 34 pleidlais | 17 pleidlais |

Gwnaeth 2 ymatal

PENDERFYNIAD: Bod y Cynghorydd JC Spanswick yn cael ei benodi'n Ddirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn ddilynol.

444. CYHOEDDI CONSORT Y DIRPRWY FAER

Cyhoeddodd y Cynghorydd Spanswick mai Mrs S Spanswick fydd ei Gonsort.

445. CYHOEDDI MAER IEUENCTID BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

PENDERFYNIAD: Cyhoeddi mai Megan Stone, Coleg Cymunedol Y Dderwen, fydd Maer Ieuenctid y Fwrdeistref Sirol ar gyfer y flwyddyn ddilynol (hyd at fis Mai 2021).

446. CYHOEDDI DIRPRWY FAER IEUENCTID BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR.

PENDERFYNIAD: Cyhoeddi mai Tino Kaseke, Ysgol Archesgob McGrath, fydd Dirprwy Faer Ieuenctid y Fwrdeistref Sirol ar gyfer y flwyddyn ddilynol (hyd at fis Mai 2021).

447. ETHOL ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

PENDERFYNIAD: Fe'i cynigwyd, ei secondio'n briodol, a'i gario mewn cydsyniad, mai'r Cynghorydd HJ David a gaiff ei ethol yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn ddilynol, hyd at fis Mai 2021.

448. DERBYN ADRODDIAD YR ARWEINYDD

Cyflwynodd yr Arweinydd ei adroddiad fel a ganlyn:-

"Hoffwn ddechrau drwy longyfarch Ken a Julia, a John a Susan. Rwy'n gwybod y byddant yn gynrychiolwyr ac yn llysgenhadon gwych dros y Fwrdeistref Sirol, diolchaf i'm cydweithwyr am fy ail-benodi'n Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Rhoddaf fy llongyfarchion cyhoeddus i Megan a Tino hefyd.

Mae bod yn Arweinydd yn fraint ac yn gyfrifoldeb eithriadol, addawaf roi fy sylw a'm ffocws llawn i'r rôl unwaith eto, a gwneud fy ngorau bob amser i'r holl bobl a'r holl gymunedau a wasanaethwn.

Yn 2019, pan anerchais gyfarfod blynyddol y Cyngor diwethaf, soniais am sut yr oeddem yn parhau i fod yn un o'r cyfnodau anoddaf a heriol y mae llywodraeth leol wedi'i wynebu erioed.

Ar y pryd, roeddwn yn cyfeirio at fesurau cyni, ac effaith gorfod torri £60 miliwn o gyllidebau craidd cynghorau dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Pwy allai fod wedi rhagweld y byddai'r senario parhaus hwn, o fewn ychydig fisoedd yn unig, yn cael ei ddwysáu ymhellach gan yr achosion byd-eang o Covid-19?

Yr ydym i gyd yn ymwybodol iawn o'r modd y mae'r cyngor hwn wedi esgyn unwaith eto i wynebu’r her ddiweddaraf ac anoddaf hon.

Mae'r ymateb gan staff Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod yn hynod.

Maent wedi addasu, arloesi, a dyfalbarhau o dan yr amgylchiadau anoddaf, ac maent wedi sicrhau bod yr awdurdod hwn wedi gallu parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl y fwrdeistref sirol.

Yr wyf yn sicr y bydd aelodau o bob plaid am ymuno â mi i gydnabod eu hymdrechion, ac i gynnig ein diolchgarwch a'n parch diffuant i staff y cyngor.

Yn ail, mae'r pandemig wedi dod ag ystod eang o sefydliadau ac asiantaethau ynghyd i gydweithio a chyflawni nod cyffredin ar draws ein hysgolion a'n cymunedau.

Mae hyn wedi cynnwys cyflawniadau fel sefydlu chwe chanolfan gofal plant brys dros nos, sicrhau nad oedd dros bum mil o blant mynd ar lwgu, troi depo cyngor yn orsaf ambiwlans dros dro o fewn ychydig ddyddiau, sefydlu Abergarw Manor fel cyfleuster cam-i-lawr dros dro i bobl sy'n gadael yr ysbyty, a darparu mwy na £28 miliwn o gymorth ariannol i 2,300 o fusnesau anghenus.

Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â BAVO a grwpiau cymunedol gwych i gefnogi miloedd o bobl agored i niwed a oedd gwarchod, ac wedi sefydlu system ymarferol, a reolir yn lleol, er mwyn monitro, olrhain, ac amddiffyn mewn pythefnos yn unig.

Er mor heriol, mor galed, ac, mewn llawer o achosion, mor drasig ag y bu'r pandemig, rydym wedi gweld y gorau o bobl, a'r agwedd hon yn anad dim sydd wedi ein hatgoffa'n ysbrydoledig o’r rheswm ein bod ni yma.

Wrth gwrs, yr ydym hefyd wedi wynebu'r ergyd drom o golli'r Ford Engine Plant, gan golli 1,700 o swyddi a thros £250 miliwn y flwyddyn o'r economi leol.

Dywedais wrth y Pwyllgor Dethol ar Faterion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin fod buddsoddi brys a gweithredu cyflym yn hanfodol i ddiogelu cymunedau a'r economi leol y fwrdeistref sirol, ac mae hyn yn dal yn wir.

Rydym wedi gweithio ochr yn ochr â phartneriaid tasglu megis Llywodraeth Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd i gynnig cymorth i'r holl weithwyr yr effeithir arnynt ac i weld pa fuddsoddiadau newydd y gellir eu cynnwys yn yr ardal, ac yr ydym yn parhau i wneud hynny.

Mae'n galonogol gweld bod y rhan fwyaf o weithwyr Ford wedi manteisio ar gyfleoedd i ailhyfforddi a datblygu sgiliau newydd, a bod mwy na 360 ohonynt wedi dod o hyd i waith newydd, tra bod 230 arall wedi dewis ymddeol.

Fodd bynnag, mae'r ffaith bod cwmni Ford, am fwy na phedwar degawd, wedi bod yn gwmni angori ac yn un o bwerdai'r economi leol.

Dyna pam ei bod yn bwysicach nag erioed i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd a ddaw yn sgil y Fargen Ddinesig yn y dyfodol, ac i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru weithio'n ddiflino ochr yn ochr â ni i gyflwyno buddsoddiad, busnesau, a swyddi newydd.

Mae hyn wrth gwrs yn ychwanegol at gefnogi'r rheini sydd yma eisoes, a sicrhau bod cyfleoedd ar gael o hyd i genedlaethau'r dyfodol.

Yn hyn o beth, mae ffocws y cyngor hwn yn parhau'n gadarn ar sicrhau twf a ffyniant yn y dyfodol, ac rydym yn gwahodd pob busnes i ddod i weld beth sydd gan yr ardal i'w gynnig.

Er gwaethaf effaith y pandemig a chau'r Ford Engine Plant, mae'r cyngor hwn hefyd wedi darparu nifer o wasanaethau a chyfleusterau y dylem deimlo'n falch ohonynt.

Fel rhan o'n rhaglen i foderneiddio gwasanaethau i bobl hŷn, ac mewn partneriaeth â Linc Cymru, rydym wedi agor dau gyfleuster gofal ychwanegol newydd yn Nhŷ Ynysawdre a Thŷ Llwynderw ym Maesteg.

Nid oes ond rhaid ichi ymweld â'r cyfleusterau hyn i weld eu gwerth a'r newid cadarnhaol y maent yn ei wneud ym mywydau trigolion hŷn.

Mae sicrhau y gall pobl fyw'n annibynnol gyda'u partneriaid, yn eu fflatiau eu hunain, lle gallant gael y cymorth sydd ei angen arnynt, wrth wraidd ein gweledigaeth ar gyfer dyfodol gofal cymdeithasol a thai ar draws y fwrdeistref sirol.

Pan gododd materion yn ymwneud â chartref gofal preswyl Tŷ Cwm Ogwr yn Lewistown, cymerodd y cyngor hwn gamau cyflym a phendant i sicrhau bod y cartref yn aros ar agor, a gallai preswylwyr barhau i elwa o ofal o ansawdd uchel.

Yn yr un modd, rydym wedi adeiladu ar lwyddiant ailfodelu ein cartrefi plant ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl i ddatblygu cynlluniau newydd ar gyfer cyfleuster preswyl i blant ar hen safle Ysgol Brynmenyn.

Mae hon yn fenter allweddol gan y bydd yn ein galluogi i ddod â rhai o'n plant mwyaf agored i niwed 'y tu allan i'r sir' adref i leoliad mewnol.

Rydym hefyd wedi parhau i sicrhau datblygiadau sylweddol ym maes addysg.

Mae Band A o'n Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yr 21ain Ganrif eisoes wedi darparu cyfleusterau newydd o'r radd flaenaf mewn ardaloedd fel Pencoed, Betws, Coety a Brynmenyn.

Gan ein bod bellach wedi cadarnhau ein hymrwymiad tuag at Fand B y fenter, byddwn yn adeiladu ar y llwyddiant hwn drwy fuddsoddi mwy na £68 miliwn i welliannau pellach.

Mae hyn yn cynnwys cynlluniau cyffrous ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg yng ngorllewin y Fwrdeistref, Corneli, i ddatblygu ysgol arbennig newydd newydd ar gyfer plant ag anghenion cymhleth, a llawer mwy.

Mae'r cyngor hefyd yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau blaenllaw yng Nghymru o ran meysydd fel ailgylchu gwastraff a'i ddargyfeirio oddi wrth safleoedd tirlenwi.

Er bod arolwg annibynnol wedi canfod mai ein cyfraddau ailgylchu plastig yw'r gorau yn y wlad, a'r ail uchaf yn y DU, rydym yn parhau i fod yn uchelgeisiol, ac mae gennym gynlluniau ar waith i ddarparu canolfan ailgylchu aelwydydd modern newydd yn y Pîl a fydd yn disodli'r cyfleuster hŷn yn Tythegston.

Rydym hefyd yn cyflawni cynigion arloesol i leihau allyriadau carbon mewn meysydd eraill, a chyda cynllun mwynglawdd cyntaf erioed y DU yng Nghaerau a'r rhwydwaith wres ardal yng nghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr oll yn gwneud cynnydd, mae'n hawdd deall y farn bod y fwrdeistref sirol yn flaengar yn rhaglen chwyldro ynni'r dyfodol y DU.

Boed yn brosiectau fel y rhain, neu fuddsoddi miliynau o bunnoedd mewn llwybrau beicio a cherdded, neu sefydlu adeiladau newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, mae ein hymrwymiad i leihau ôl troed carbon y fwrdeistref sirol wedi arwain at weithredu gwirioneddol, fel y dangosir gan ein prosiect gwerth £3 miliwn i ddarparu llwybrau cerdded a beicio newydd ym Mhencoed a Phen-y-bont ar Ogwr.

Rydym wedi ymrwymo i fuddsoddi ffigwr hanesyddol o dros £5 miliwn mewn ail-wynebu ffyrdd a throedffyrdd ar draws Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, ac wedi neilltuo £2 filiwn arall ar gyfer gwelliannau pellach i dir y cyhoedd.

Mae'r cyngor yn parhau i fuddsoddi yn ein mannau gwyrdd, ac wedi sicrhau £400,000 drwy Dasglu'r Cymoedd i'w fuddsoddi yng Nghronfa Natur Parc Slip. Gwnaethom hefyd sicrhau buddsoddiad ychwanegol o £500,000 ar gyfer Parc Gwledig Bryngarw i ganiatáu gwaith cadwraeth ynghyd â phlannu coed, sefydlu perllan gymunedol, gardd bywyd gwyllt, gardd law, pyllau newydd, adeiladau addysgol newydd, a mwy.

Mae'r cyngor hwn wedi cynnal ymrwymiad hirdymor i hyrwyddo'r Gymraeg, ac yr ydym yn cyflawni hyn drwy ddatblygu pedair canolfan gofal plant cyfrwng Cymraeg newydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl, a chymoedd Ogwr a Garw.

Bydd y rhain yn galluogi mwy o deuluoedd i fanteisio ar ofal plant am ddim i rieni sy'n gweithio.

Mae ein cynlluniau ar gyfer y ganolfan gyntaf, i'w sefydlu ym Melin Ifan Ddu, eisoes ar y gweill.

Mae gofal plant, wrth gwrs, yn hanfodol i sicrhau bod pobl yn gallu gweithio a chael hyfforddiant.

Yn yr un maes, mae ein rhaglen cyflogadwyedd wedi cael ei chydnabod fel y rhai mwyaf llwyddiannus yn Ne Cymru, ac mae'n parhau i helpu cannoedd o bobl sy'n ddi-waith neu sy'n wynebu diweithdra.

Mae Bargen Ddinesig Dinas-ranbarth Caerdydd yn cyfrannu at hyn gyda rhaglen ar gyfer lleoliadau i raddedigion sydd o fudd i fyfyrwyr a chwmnïau lleol.

Mae'r cyngor hefyd yn croesawu'r rhaglen, ac wrthi'n cwblhau'r cylch diweddaraf o recriwtio prentisiaid newydd ar draws nifer eang o feysydd busnes.

Mae ein prosiectau adfywio'n parhau i wneud cynnydd, gyda datblygiadau cyffrous pellach ar y gweill ym Mhorthcawl gyda Salt Lake, a'r buddsoddiad gwerth miliynau o bunnoedd mewn amddiffynfeydd arfordirol newydd a Phromenâd y Dwyrain.

Mae adfywio hefyd yn mynd rhagddo ym Maesteg, gyda gwaith yn cael ei wneud yn neuadd eiconig y dref i sicrhau y bydd yn ganolfan i'r cwm am genedlaethau i ddod, yn ogystal â chanol tref Pen-y-bont ar Ogwr, lle'r ydym yn paratoi i ddadorchuddio templed cynllun meistr newydd i sicrhau ffyniant.

Fel lleoliad lle gwneir llawer o weithgynhyrchu, mae Mynegai Cystadleurwydd y DU wedi cydnabod yn swyddogol mai'r fwrdeistref sirol yw'r seithfed rhanbarth mwyaf cystadleuol o Gymru.

Gyda'r ail orsaf drenau brysuraf yn rhanbarth y Fargen Ddinesig, rydym yn ardal sy'n gweithredu fel cyswllt pwysig yn y rhwydwaith trafnidiaeth genedlaethol, i fusnesau yn ogystal â'r bobl sydd angen teithio i'r gwaith neu i dderbyn hyfforddiant.

Diolch i fuddsoddiad o £5 miliwn gan raglen Metro Plus, mae cynlluniau ar y gweill i ehangu gorsaf reilffordd y Pîl a'r system parcio a theithio, gan wella cysylltiadau ag Ystâd Ddiwydiannol Village Farm.

Yn ogystal â hyn, bydd gorsaf reilffordd newydd yn cael ei hadeiladu yn Bracla, ym Mhencoed mae seilwaith i alluogi cau'r groesfan reilffordd, a bydd gwelliannau i'r cysylltiadau trafnidiaeth rhwng Maesteg, Pen-y-bont ar Ogwr, Porthcawl a Chaerdydd yn cynnwys terminal trafnidiaeth newydd ym Mhorthcawl.

Gyda phrosiectau fel y rhain a'r llawer mwy sydd ar y gweill, mae'r cyngor hwn yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith newydd ar gyfer y fwrdeistref sirol, hyd yn oed wrth inni edrych ar fanteisio ar ddatblygiadau'r dyfodol ledled y rhanbarth, a darparu gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel i'r bobl a wasanaethwn.

Cyn i mi orffen, hoffwn wneud rhai cyhoeddiadau ynglŷn â newidiadau yn uwch-reolwyr y cyngor.

Yn gyntaf oll, ymunodd Janine Nightingale â ni'n ddiweddar fel Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau newydd.

Gyda thros ddau ddegawd o brofiad fel uwch reolwr mewn llywodraeth leol, mae Janine yn gynllunydd cymwysedig sydd wedi gweithio ar lefel prif swyddog â Chyngor Caerdydd.

Ei safle diweddaraf oedd Pennaeth Prosiectau Cyfalaf Datblygu Economaidd, lle'r oedd yn gyfrifol am ddarparu cyfeiriad strategol ac arwain ar raglen gyfalaf £300m Caerdydd.

A hithau'n ferch falch o Faesteg, mae gan Janine yr un angerdd dros ddatblygu adfywiad ein cymunedau â'r gweddill ohonom.

Yn sgil ymddeoliad Sue Cooper, bydd Claire Marchant yn cymryd yr awenau fel Cyfarwyddwr Corfforaethol newydd y Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles hefyd.

Mae Claire wedi bod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghaerdydd dros y ddwy flynedd ddiwethaf, a chanddi dros 20 mlynedd o brofiad lefel uwch ar draws gwasanaethau cyhoeddus Cymru.

A hithau wedi ymgartrefu ym Mhorthcawl i fagu ei theulu, mae Claire mor frwd ag un rhyw un dros amddiffyn ein dinasyddion mwyaf agored i niwed yn ogystal â gwelliant parhaus ac ailfodelu ein gwasanaethau cymdeithasol.

Rwy'n saff fod yr holl aelodau yn ymuno â mi i'w croesawu i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Yn fy rôl fel Arweinydd, rwy'n dibynnu ar gefnogaeth fedrus fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet.

Yr wyf yn ddiolchgar iawn am eu cefnogaeth, a hoffwn gydnabod eu hymroddiad parhaus.

Gallaf gyhoeddi heddiw y bydd un newid i dîm y Cabinet am y flwyddyn i ddod.

Bydd y Cynghorydd Philip White yn ymddeol o swydd yr Aelod Cabinet a'r Cynghorydd Nicole Burnett fydd yr Aelod Cabinet newydd dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar.

Wrth gyflawni'r swydd dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cynghorydd White wedi cynnig gwasanaeth diflino.

Mae hefyd wedi gweithredu fel hyrwyddwr brwd dros hawliau gofalwyr, pobl hŷn, a phlant a phobl ifanc.

Mae'r Cynghorydd White yn ymddeol o'r Cabinet ond, o ran y Cyngor, bydd yn parhau i fod yn gynrychiolydd gweithgar iawn ar gyfer ei gymuned yng Nghaerau, er enghraifft fel Cadeirydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd Nantyffyllon.

Mae'r Cynghorydd Burnett wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad tebyg, ac nid oes gennyf amheuaeth o gwbl y bydd yn bodloni gofynion y rôl bwysig hon yn fedrus, a'i bod yn rhannu'r un angerdd.

Yr wyf yn ddiolchgar bod y Cynghorydd Burnett wedi derbyn y swydd ac, ar y cyd â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet, hoffwn estyn croeso cynnes iddi a chynnig ein diolch diffuant i'r Cynghorydd White am ei gyfraniad amhrisiadwy.

Gan nad wyf yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau pellach ym mhortffolio presennol y Cabinet, hoffwn orffen drwy fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch yn ddiffuant i'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorwyr Patel, Smith a Young am eu cefnogaeth barhaus a gwerthfawr.

Mae'n cael ei werthfawrogi, fel pob tro.

Hoffwn hefyd estyn fy niolch personol i bob aelod am eu cefnogaeth yn ystod yr argyfwng iechyd byd-eang hwn. Er bod gennym rai gwahaniaethau gwleidyddol, ond â gaeaf anodd o'n blaenau, mae'r gwahaniaethau hyn yn eilradd i'n hamcan pennaf, sef amddiffyn y trigolion rhag firws Covid-19 gystal ag y gallwn. Rwy'n gwybod ein bod ni, fel Cyngor, a'n bryd ar barhau mewn undod wrth gefnogi ac amddiffyn ein dinasyddion."

Rhoddodd y Dirprwy Arweinydd a phob un o Aelodau'r Cabinet yn eu tro, eu teyrngedau personol i'r Cynghorydd PJ White am ei ymrwymiad, ei gefnogaeth a'i ymroddiad wrth ei waith fel Aelod Cabinet ar gyfer portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar.

Atebodd y Cynghorydd White drwy gadarnhau ei fod wedi mwynhau'r rôl hon yn aruthrol, ac er ei fod wedi rhoi ystyriaeth hir i'w benderfyniad i ymddiswyddo fel Aelod o'r Cabinet, teimlai mai dyna'r dewis cywir ar hyn o bryd. Diolchodd i'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet am eu geiriau caredig ac am y gefnogaeth yr oeddent hwy ac Aelodau Eraill y Fwrdeistref Sirol wedi'i roi iddo ers dod yn aelod o'r Weithrediaeth.

449. <u>YR ARWEINYDD I BENODI AELODAU'R CABINET</u>

PENDERFYNIAD: Penododd yr Arweinydd yr Aelodau canlynol i'r Cabinet yn swyddogol:-

Cynghorydd HM Williams
Cynghorydd D Patel
Cynghorydd N Burnett
Cynghorydd CE Smith
Cynghorydd RE Young

450. CAIFF YR ARWEINYDD GYHOEDDI DIRPRWY ARWEINYDD CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR O BLITH YR AELODAU HYNNY A BENODIR I'R CABINET, A CHAIFF GYHOEDDI PENODIAD AELODAU'R CABINET I BORTFFOLIOS

PENDERFYNIAD: Cyhoeddodd yr Arweinydd mai'r Cynghorydd EM Williams fydd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod Cabinet sy'n gyfrifol am Adnoddau ar gyfer 2020/2021.

Ychwanegodd mai'r Aelodau Cabinet canlynol fyddai'n gyfrifol am y portffolios isod:-

Cynghorydd D Patel – Lles a Chenedlaethau'r Dyfodol
Cynghorydd N Burnett – Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar
Cynghorydd CE Smith – Addysg ac Adfywio
Cynghorydd RE Young - Cymunedau

451. RHAGLEN ARFAETHEDIG O GYFARFODYDD Y CYNGOR A PHWYLLGORAU'R CYNGOR

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i ddiben oedd cynnig rhaglen o gyfarfodydd cyffredin y Cyngor a Phwyllgorau’r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig Hydref 2020 – Ebrill 2021 i'w chymeradwyo, ac i nodi'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn ddinesig Mai 2021 – Ebrill 2022.

Cyhoeddodd y Swyddog Monitro ddau newid i'r rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn 2020-2021, sef bod cyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu ar 25 Tachwedd bellach yn i’w gynnal ar 18 Tachwedd 2020, a bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 22 Hydref bellach yn cael ei gynnal ar 4 Tachwedd 2020.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:

a. Cymeradwywyd y rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2020/21 a nodir ym mharagraff 4.1 o'r adroddiad hwn;

b. Cymeradwywyd y rhaglen arfaethedig o gyfarfodydd Pwyllgorau'r Cyngor a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad hwn (yn amodol ar y diwygiadau uchod);

c. Nodwyd y rhaglen ddrafft dros dro o gyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau’r Cyngor ar gyfer 2021/22 a nodir yn Atodiad 2 i'r adroddiad;

d. Nodwyd dyddiadau'r Cabinet, Pwyllgorau'r Cabinet a Chyd-bwyllgor Amlosgfa Llangrallo sydd hefyd wedi'u nodi yn Atodiad 1 a 2 yr adroddiad, at ddibenion gwybodaeth.

452. PENODIADAU I BWYLLGORAU'R CYNGOR A CHYRFF ERAILL Y CYNGOR YN UNOL Â DARPARIAETHAU DEDDF LLYWODRAETH LEOL 1972 A DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli, a chyrff eraill y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol, i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor llawn nac yn swyddogaethau gweithredol.

Dywedodd fod Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor, dan deitl Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor, yn nodi holl Bwyllgorau, Is-bwyllgorau, Paneli a chyrff eraill y Cyngor sydd ar waith ar hyn o bryd. Yn yr adroddiad roedd rhai Pwyllgorau penodol a lywodraethir gan ddarpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 o ran eu cyfansoddiad a/neu eu penodiad o Gadeiryddion.

Amlinellodd yr adroddiad y broses y dylid ei dilyn mewn perthynas â phenodi Aelodau i'r cyrff uchod, ond yn fwy penodol, i benodi Cadeiryddion a lle y bo'n gymwys, Is-gadeiryddion, yn unol â'r darpariaethau a amlinellir uchod.

Enghraifft o hyn fyddai penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yng nghyfarfod cyntaf y Pwyllgor ar ôl y cyfarfod blynyddol. Ni allai'r penodiadau hyn fod yn Aelodau o grŵp gwleidyddol mwyaf y Cyngor.

Cynigwyd fod cylch gwaith a swyddogaethau presennol Pwyllgorau a chyrff eraill y Cyngor heb eu newid, fel y nodir yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad – Cyfrifoldeb am Swyddogaethau'r Cyngor a oedd ynghlwm yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

Mae cydbwysedd gwleidyddol yn hanfodol er mwyn pennu'r ffordd y dyrennir seddi ar Bwyllgorau. Dangosir cydbwysedd gwleidyddol presennol Pwyllgorau a chyrff eraill yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Dangoswyd strwythur presennol y pwyllgorau yn Atodiad 3 yr adroddiad, tra bod aelodaeth bresennol pwyllgorau a fydd yn sail i unrhyw newidiadau i aelodaeth y pwyllgorau wedi'i hatodi yn Atodiad 4.

PENDERFYNIAD: Fod y Cyngor wedi:-

(1) Cytuno i ailenwi'r Pwyllgor Archwilio yn Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, a chymeradwyo y dylid diwygio Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Archwilio yn Rhan 3 o'r Cyfansoddiad yn unol â hynny i adlewyrchu'r newid yn enw'r Pwyllgor Archwilio, yn unol â pharagraff 4. 2.3 o'r adroddiad, ac i ddileu'r cyfeiriad at y Polisi Chwythu'r Chwiban ym mharagraff 4.2.4 o'r adroddiad;

(2) Penodi'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ac unrhyw Bwyllgorau eraill y mae'r Cyngor o'r farn eu bod yn briodol i ymdrin â materion nad ydynt wedi'u neilltuo i'r Cyngor nac yn swyddogaethau gweithredol;

(3) Pennu maint a chylch gorchwyl y Pwyllgorau hynny fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad;

(4) Penderfynu dyrannu seddi i grwpiau gwleidyddol yn unol â'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol fel y nodir yn Atodiad 2 yr adroddiad;

(5) Penderfynu pa grwpiau gwleidyddol a gynrychiolir yn y Cyngor sydd â hawl i wneud pa benodiadau o Gadeiryddion y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu;

(6) Derbyn enwebiadau a chynghorwyr penodedig i wasanaethu ar bob un o'r Pwyllgorau, y Paneli a chyrff eraill (fel y dangosir fel Atodiad i'r cofnodion hyn);

- Panel Apeliadau
- Y Pwyllgor Penodiadau
- Y Pwyllgor Archwilio
- Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
- Pwyllgor Rheoli Datblygu
- Y Pwyllgor Trwyddedu
- Pwyllgor Deddf Trwyddedu 2003
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol

(7) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau, y Paneli a chyrff eraill canlynol (fel y nodwyd), ac wedi nodi y bydd y Pwyllgor Archwilio yn penodi Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn ei gyfarfod cyntaf:

- Panel Apeliadau

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Cadeirydd i'r Panel Apeliadau am weddill y flwyddyn ddilynol, hyd Mai 2021, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd PA Davies
Y Cynghorydd R Penhale-Thomas

Cynhaliwyd pleidlais felly, a’r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd PA Davies | Y Cynghorydd R Penhale-Thomas |
|---|---|
| 30 pleidlais | 23 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd PA Davies yn Gadeirydd y Panel Apeliadau**

Is-gadeirydd – y Cynghorydd J McCarthy – (heb wrthwynebiad)

- Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd - Cadeirydd E Venables (yn ddiwrthwynebiad)

- Pwyllgor Rheoli Datblygu

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Cadeirydd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am weddill y flwyddyn ddilynol, hyd Mai 2021, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd G Thomas
Y Cynghorydd S Dendy

Cynhaliwyd pleidlais felly, a’r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd G Thomas | Y Cynghorydd S Dendy |
|---|---|
| 30 pleidlais | 23 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd G Thomas yn Gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

Cafwyd dau enwebiad ar gyfer penodi Is-gadeirydd i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am weddill y flwyddyn ddilynol, hyd Mai 2021, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd RM Granville
Y Cynghorydd S Dendy

Cynhaliwyd pleidlais felly, a'r canlyniad fel a ganlyn:-

| Y Cynghorydd RM Granville | Y Cynghorydd S Dendy |
| --- | --- |
| 28 pleidlais | 25 pleidlais |

**O ganlyniad, penodwyd y Cynghorydd RM Granville yn Is-gadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu**

- Y Pwyllgor Trwyddedu a Phwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 – Cadeirydd - Y Cynghorydd D Lewis (heb wrthwynebiad)
  Is-gadeirydd – Y Cynghorydd PA Davies (heb wrthwynebiad)
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned – Cadeirydd
  – Y Cynghorydd HJ David (heb wrthwynebiad)
  Is-gadeirydd – Y Cynghorydd CE Smith (heb wrthwynebiad)

(8) Derbyn enwebiadau a phenodi Cadeiryddion y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu canlynol yn unol â darpariaethau paragraff 4.3 o'r adroddiad:

- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 1 – Y Cynghorydd T Giffard (heb wrthwynebiad)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 2 – Y Cynghorydd CA Green (heb wrthwynebiad)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Pwnc 3 – Y Cynghorydd JP Blundell (heb wrthwynebiad)

453. CYNRYCHIOLAETH AR GYRFF ALLANOL A PHWYLLGORAU ERAILL

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad, a'i ddiben oedd ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i benodi Aelodau i Banel Heddlu a Throseddu De Cymru, Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru fel y nodir yn yr adroddiad yn Atodiad 1, ar gyfer y flwyddyn ddilynol h.y. hyd at fis Mai 2021.

Enwebwyd dau berson i ymuno â Chyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd, fel a ganlyn:-

Y Cynghorydd JP Blundell
Y Cynghorydd M Voisey

Cynhaliwyd pleidlais felly, a'r canlyniad fel a ganlyn:-

| Cynghorydd JP Blundell | Cynghorydd M Voisey |
| --- | --- |
| 30 pleidlais | 17 pleidlais |

Gwnaeth 5 ymatal

| PENDERFYNIAD: | (1) Bod y Cynghorydd JP Blundell yn cael ei benodi i Gyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Caerdydd a bod y Cynghorydd Alex Williams yn cael ei benodi'n Aelod Wrth Gefn (nid oedd gwrthwynebiad i benodiad y Cynghorydd Williams).<br><br>(2) Bod y Cynghorydd RE Young yn cael ei benodi i Banel Heddlu a Throseddu De Cymru.<br><br>(3) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Datblygu yn cael ei benodi i Gynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru. |
|---|---|

454. ARWISGO MAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER 2020/21

Yn sgil cymeradwyaeth y Cyngor i enwebiad y Cynghorydd K Watts fel Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2020/2021, gwahoddwyd y Cynghorydd Watts i dderbyn Swyddfa'r Maer yn ffurfiol gan y Maer sy’n ymadael. Derbyniodd y Cynghorydd Watts swydd y Maer ar lafar, ac adroddodd y llw canlynol :–

"Rwyf i, Kenneth Watts, yn tyngu y byddaf yn ffyddlon ac yn dwyn gwir deyrngarwch i'w Mawrhydi y Frenhines Elizabeth yr Ail."

Estynnodd y Cynghorydd SE Baldwin ei longyfarchiadau i'r Maer newydd.

455. ARWISGO CONSORT Y MAER

Yn sgil enwebiad y Cynghorydd J Williams i fod yn gonsort y Maer ar gyfer y flwyddyn 2020/21, gwahoddwyd ef i dderbyn swydd y consort yn ffurfiol gan y Maer sy’n ymadael.

Derbyniodd y Cynghorydd Julia Williams swydd Consort y Maer ar lafar, fel a ganlyn:-

"Mae'n bleser mawr gennyf dderbyn swydd Consort y Maer."

Estynnodd y Cynghorydd SE Baldwin ei longyfarchiadau i’r Consort newydd.

456. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER NEWYDD

Rhoddodd y Cynghorydd K Watts, y Maer newydd, ei anerchiad fel a ganlyn:-

"Mr. Maer, Cynghorwyr, gwesteion, a theulu, sydd 'bron' yn bresennol, , diolch i ryfeddodau technoleg fodern.

Yn naturiol, yr wyf yn falch iawn ac yn anrhydeddus o gael fy ethol i swydd Maer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, rhywbeth nad oeddwn erioed wedi disgwyl iddo ddigwydd. Er mwyn ymhelaethu rhywfaint ar yr hyn y mae’n ei olygu i mi a'i realiti annisgwyl, bydd angen egluro ychydig ar sut y gwnaeth Sais fel fi gyrraedd y pwynt yma.

Ond, cyn i mi fynd ymhellach, rhaid imi ddweud fy mod yn falchach fyth, a’n fwy anrhydeddus, o gael un person penodol i gytuno i fod yn gonsort i mi, yn enwedig o ystyried y newyddion a gafodd yr adeg hon y llynedd a'r effaith ddilynol y cafodd arni. Ni allaf ond edmygu ei chryfder a'i phenderfynoldeb o ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'i phenderfyniad, ac mae’n cadarnhau ei bod yn fenyw arbennig.

Felly, mae'n fater o falchder a phleser pan ddywedaf wrthych fod y Cynghorydd Julia Williams wedi cytuno i fod yn gonsort i mi.

Ond i ddod yn ôl at yr hyn y mae'r anrhydedd hwn yn ei olygu i mi.

Des i Dde Cymru am y tro cyntaf yn 1964, yn 18 oed a'm bryd ar ferch ifanc o Gymru o Gwm Garw, a ddaeth yn ddiweddarach i fod yn wraig i mi.

Bryd hynny, roedd y tipiau glo yn dal yn amlwg iawn, a dŵr yr afon farw yn ddu. Roedd fy narpar fam yng nghyfraith, er nad oedd hi'n gynghorydd, yn llafar iawn ar fater glanhau'r llanastr a adawyd gan y diwydiant glo, diwydiant lle bu ei gŵr, fy narpar dad yn y gyfraith, yn gweithio drwy gydol ei oes. A minnau o Loegr, gwnaeth y sefyllfa a'r dinistr a wnaed gan y diwydiant argraff barhaol arnaf. Ond, dros y blynyddoedd, gwnaethpwyd mwy o argraff fyth gan y gwaith glanhau dilynol gan Gyngor Bwrdeistref Ogwr i ddechrau, a chan Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr bellach. I mi, mae hyn hyd yn oed yn fwy trawiadol o ystyried sefyllfa Dyffryn Garw cyn dechrau ei adferiad.

Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf yn ôl yn y 60au y byddwn yn dod yn Faer Sir Pen-y-bont ar Ogwr (Cyngor Bwrdeistref Ogwr ar y pryd hynny) byddwn wedi meddwl eu bod wedi drysu'n lan! A byddai fy rhieni yng nghyfraith yn meddwl hynny hefyd! Doedd gen i ddim math o ddiddordeb mewn gwleidyddiaeth ar y pryd.

Yn anffodus, nid oes yr un o'r rhai yr wyf wedi sôn amdanynt yma heddiw, ond rwy'n falch o ddweud fod fy mhlant a'm hwyrion yma.

Wedi i mi symud i Dde Cymru ym 1976 dechreuais gymryd rhan mewn materion lleol ym Mhorthcawl. Ar ôl gweld beth yr hyn a wnaethpwyd yng Nghwm Garw, doedd dim byd i'n hatal rhag gwneud yr un fath mewn mannau eraill, felly dyma fi heddiw.

Fel y gwyddom, mae pethau o'r diwedd yn dechrau symud ym Mhorthcawl.

Bydd fy mlwyddyn yn y swydd, 8 mis mewn gwirionedd, yn fyrrach nag arfer ac mae'n amlwg bod angen ei chynnal mewn ffordd gwbl wahanol i rai fy rhagflaenwyr. O ystyried yr amgylchiadau, ac rydym oll yn ymwybodol iawn ohonynt, rwyf am geisio cyflawni a hyrwyddo rôl a swydd Maer hyd eithaf fy ngallu drwy gefnogi digwyddiadau cymunedol lle bynnag a phryd bynnag y bo modd, heb unwaith anghofio'r angen i bob un ohonom aros yn ddiogel yn ystod y pandemig ofnadwy hwn.

O ran y Pandemig, credaf ei bod yn ddyletswydd arnom i gyd osod esiampl i'n hetholwyr, nid yn unig drwy gadw at y rheolau a dilyn y cyngor ond, yn bwysicach, drwy gydweithio i ddarparu'r gwasanaethau niferus y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt. Bydd yn hanfodol i ni wneud hynny er mwyn amddiffyn trigolion y Sir am, mae'n debyg, fisoedd lawer i ddod.

Rydym i gyd yn ymwybodol o etholiadau arfaethedig y Senedd fis Mai nesaf ac rwy'n mawr obeithio y gallwn ddisgwyl nes yr adegau cywir i drafod unrhyw wahaniaethau gwleidyddol yn ystod y cyfnod anodd hwn, ond gan barhau i ddarparu her a chraffu cadarn lle bo angen.

Mae hefyd yn gyfnod anodd iawn i elusennau, yn enwedig wrth godi arian, bydd hyn yn heriol a dweud y lleiaf. Felly, gofynnaf i bob aelod ystyried rhoi rhodd i'm helusennau dewisol, sef Parkinson's UK a'r Gymdeithas Epilepsi, drwy gyfrif Just Giving y Maer. Rwy'n gwybod y gofynnir hyn i chi bob blwyddyn, ond eleni rwy'n credu ei bod hyd yn oed yn fwy hanfodol gwneud rhoddion gan mai'r rhain yn sicr fydd yn ffurfio'r gyfran fwyaf o arian a godir.

Yn olaf, hoffwn longyfarch y Cynghorydd Stuart Baldwin, y Maer sy'n ymadael. Bu'n gyfnod unigryw ac anodd i awdurdodau lleol ym mhobman, ac mae Stuart wedi cynnal swydd y Maer â balchder ac angerdd drwy gydol y 17 mis diwethaf. Felly longyfarchiadau mawr ar gyfnod llwyddiannus yn y swydd, sy'n golygu mai chi, tybiaf, yw'r maer sydd wedi gwasanaethu hiraf yn CBSP. Bu'n fraint bod yn ddirprwy i chi, a chael gweithio gyda chi a'ch Cynghorydd consort. Nicole Burnett."

457. ARWISGO DIRPRWY FAER CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR AR GYFER 2020/21

Yn sgil cymeradwyaeth y Cyngor i arwisgo'r Cynghorydd JC Spanswick fel Dirprwy Faer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer y flwyddyn 2020/2021, gwahoddwyd y Cynghorydd Spanswick i dderbyn Swydd y Dirprwy Faer yn ffurfiol gan y Maer sy'n ymadael.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Spanswick ei fod yn falch ac yn anrhydeddus o dderbyn rôl Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn 2020/2021.

Estynnodd y Cynghorydd SE Baldwin ei longyfarchiadau i'r Dirprwy Faer newydd.

458. ARWISGO CONSORT Y DIRPRWY FAER

Yn sgil enwebiad Mrs S Spanswick i fod yn gonsort y Dirprwy Faer ar gyfer y flwyddyn 2020/21, gwahoddwyd hi i dderbyn swydd y consort yn ffurfiol gan y Maer sy'n ymadael.

Derbyniodd Mrs S Spanswick swydd Consort y Dirprwy Faer ar lafar, fel a ganlyn:-

"Mae'n bleser mawr gennyf dderbyn swydd Consort y Dirprwy Faer."

Estynnodd y Cynghorydd SE Baldwin ei longyfarchiadau i Gonsort newydd y Dirprwy Faer.

Daeth y cyfarfod i ben am 17:38